

YSGOL DYFFRYN CONWY



Bwletin i Rien i - Ionawr 2013



DYDDIADAU PWYSIG

29 Ionawr 2013

Noson Rhieni Blwyddyn 11

4, 5, 6 a 8 Chwefror 2013

Arholiad Llafar Saesneg

5 Chwefror 2013

Noson Agored Blwyddyn 12/13

7 Chwefror 2013

Dip/Tet Blwyddyn 9

Adolygiad Bl. ADY Blwyddyn 10

Trip Busnes Blynnyddoedd 10, 11 a 6ed

8 Chwefror 2013

PRAC Gwyddoniaeth Blwyddyn 12

11-15 Chwefror 2013

Gwyliau Hanner Tymor

18 Chwefror 2013

HMS i staff - dim ysgol i'r disgyblion

21 Chwefror 2013

Adolygiad Bl. ADY Blwyddyn 10

PRAC Gwyddoniaeth Blwyddyn 12

26 Chwefror 2013

Noson Rhieni Blwyddyn 10

Ffarwelio!



Ar ddiwedd Tymor yr Hydref ffarweliwyd gydag aelod o staff a roddodd 34 mlynedd o wasanaeth clodwiw i'r ysgol. Penderfynodd Mr Raymond Roberts ymddeol (yn gynnar wrth gwrs!) a diolchwn iddo am ei gyfraniad amhrisiadwy dros y blynnyddoedd. Roedd yn flaenllaw yn yr ysgol fel pennaeth gyrfaoedd, athro hanes a chynrychiolydd Undeb ac yn gymeriad cadarn a theg. Dymunwn ymddeoliad hapus iawn iddo ac iechyd iddo gael mwynhau ei ddi-ddordebau. Clywyd si ar ddiwrnod cyntaf y tymor newydd fod Raymond Roberts ar ben Yr Wyddfa!!



Taith i'r Paith



Llongyfarchiadau mawr i Erin Rossington Bl.12 sydd wedi cael ei dewis i fynd i Batagonia ddiwedd Hydref. Ymgeisiodd nifer am le ar y daith sy'n cael ei threfnu gan yr Urdd, a llwyddodd Erin i fod yn un o'r ugain o'r Gogledd fydd yn cael treulio pythefnos yn y Wladfa. Bydd Erin yn dechrau casglu arian gyda hyn tuag at y profiad bythgofiadwy yma.



Sioe i'w chofio!



Bu disgyblion Ysgol Dyffryn Conwy yn brysur tymor diwethaf yn paratoi at berfformiadau o'r sioe gerdd adnabyddus "Hairspray". Cafodd y sioe ei pherfformio yn ddwyieithog gyda chast o ddisgyblion blwyddyn 7 i 13 yn cymryd rhan, heb anghofio ambell i athro oedd hefyd yn ran o'r sioe. Cafodd y sioe ei pherfformio ar ddydd Llun y 17eg o Ragfyr i ddisgyblion blynyddoedd 5 a 6 ysgolion cynradd yr ardal ac yna perfformiadau egniol a phroffesiynol i'r cyhoedd o nos Fawrth yr 18fed i nos Iau yr 20fed o Ragfyr. Roedd neuadd yr ysgol o dan ei sang bob noson. Hoffai'r athrawon a fu yn hyfforddi a'r disgyblion ddiolch am yr holl gefnogaeth. Diolch o galon i'r disgyblion am eu gwaith caled ac i Llio Japheth, Angharad Ellis, Chris Roberts a nifer o staff eraill a fu ynghlwm efo llwyddiant y cynhyrchiad.

Dyma oedd gan rhai o ddisgyblion yr ysgol a oedd yn rhan o'r cast i'w ddweud ynglŷn â'r sioe:-

"Rwyf wedi mwynhau cymryd rhan yn y Sioe gerdd 'Hairspray' yn yr ysgol. Roeddwn yn rhan o'r corws. Cafodd pawb amser gwych, roeddwn wedi mwynhau perfformio yn enwedig y gan olaf."
Cari Marged Jones, Blwyddyn 7

"Rydw i wedi cael hwyl a sbri yn ymarfer a pherfformio'r sioe gerdd 'Hairspray'. Roedd yn ffantastig. Roeddwn i yn dawnsio a chanu fel rhan o'r corws."
Lea Ruth Thomas, Blwyddyn 7

"Mi ges i hwyl yn perfformio'r sioe 'Hairspray'. Roedd o'n brofiad ardderchog a bythgofiadwy. Rwyf yn edrych ymlaen at y sioe nesaf."
Cora Roberts, Blwyddyn 8



"Hairspray has been a brilliant experience and I have loved every minute. I feel my confidence has grown, and I have made lots of new friends. The audience really enjoyed it and the whole cast got a huge buzz after each performance!"
Morgan Evans, Year 12

"Roedd hi'n braf perfformio fel rhan o'r sioe 'Hairspray.' Mi oeddwn i yn rhan o'r corws ac mi wnes i fwynhau'r dawnsio, action a'r canu."
Beca Williams, Blwyddyn 8

"Bu perfformio'r sioe 'Hairspray' yn llond berfa o hwyl! Cefais brofiad newydd sbon i mi, cyfle i gyfarfod pobl newydd ar y daith gan ddysgu peth neu ddau am action a chanu. Diolch mawr i bawb fu'n rhan o'i gwneud hi'n sioe mor llwyddiannus, a diolch mwy i Miss Japheth, Miss Ellis a Mr Roberts am eu hymroddiad enfawr dros y misoedd diwethaf!"
Rhodri Siôn, Blwyddyn 13

Dathlu Llwyddiannau

Cynhaliwyd Seremoni Wobrwyo lwyddiannus ar yr 8fed o Ionawr, a daeth nifer uchel o ddisgyblion a rhieni i ymuno â'r dathlu. Gwobrwywyd disgyblion ar draws yr holl Gyfnodau Allweddol am eu llwyddiannau academiaidd, mewn maes chwaraeon, allgyrsiol a phresenoldeb.

Pleser oedd croesawu Mrs Janet Hughes, cyn Dirprwy'r ysgol fel siaradwr gwadd a mwynhawyd ei haraith adeiladol a phwrpasol. Cafwyd datganiadau cerddorol hyfryd gan Joshua Bradnam-Smith ar y ffidil, Cadi Edwards, cyfansoddiad llais a phiano a Rhiannon Hughes ar y delyn, ynghyd a chan o'r sioe gerdd ' Hairspray'. Gwobrwywyd nifer o ysgoloriaethau am ganlyniadau Safon Uwch anhygoel yn arholiadau'r Haf 2012.

Ysgoloriaethau'r Llywodraethwyr

Dr. Harold Williams : Elin Owen a Catrin Davies
Williams J. Lewis: Dafydd Evans a Daniel Jones
Holt: Rachel Johncock, Mali Dafydd, Kyra Hamilton a Non Hughes

Ysgoloriaethau Cymdeithas Hanes Llanrwst: Anna Vaughan Jones ac Emily Crane

Gwobrwywyd perfformwyr rhagorol hefyd ar lefel UG

Gwobrau Ysgol UG: Ben Griffith, Ffion Hughes a Haydn Jenkins (Bl.13)

Llwyddodd 3 o ferched, sydd bellach yn fyfyrwyr Bl.12, i gyflawni cryn gamp drwy basio pob un o'u harholiadau TGAU gyda A*.

Gwobr Rotari TGAU+ Gwobr Ysgol TGAU: Elin Arfon 10A*, Elin Wrennall 10A* a Lowri Roberts 10A*

Derbyniodd disgyblion eraill wobrau am eu hymdrech a'u cyraeddiadau mewn sawl maes hefyd.

Gwobr Tref Llanrwst: Morgan Metcalfe 10N

Gwobrau CA3: Joshua Bradnam-Smith, Rachel Gates, Branwen Jones, Joachim Rigotti, Jonathan Coates, Rhiannon Hughes a Branwen Morus (Bl.10)

Gwobrau Presenoldeb Llawn 2011-12 : Annest Jones, Nicole Owens, Daniel Davies a Dion Williams(BI.9); Joachim Rigotti ac Ioan Wyn-William (Bl.10)

Ym maes chwaraeon cyflwynwyd tariannau Victor Victrix Ludorum ymhob blwyddyn ynghyd a Gwobr arbennig am Berfformiad Rhagorol i Rachel Johncock ym maes Athletau cenedlaethol a bellach rhyngwladol.

Gwobr Cyrhaeddiad Rhagorol : Rachel Johncock (cystadlu ym Mhencampwriaeth Athletau Iau y Byd)

Victor Victrix Ludorum Athletwr y Flwyddyn

Bl.8 : Shauna Lyons ac Oscar Lennon

Bl.9 : Megan Roberts ac Owain Jones

Bl.10: Lea Royle a Tom Jones

Athletwr y Flwyddyn: Iestyn Thomas (Bl.11)

Athletwraig y Flwyddyn: Emily Watson (Bl.12)



Bu 2012 yn flwyddyn gerdd-dantaidd yn Ysgol Dyffryn Conwy, yn arbennig felly i'r côr hŷn a'r parti hŷn Bl.10-13 a chyflwynwyd tariannau a thlysau i gynrychiolwyr y partïon. Yn Eisteddfod yr Urdd Eryri 2012 daeth buddugoliaeth i'r côr cerdd dant, yna cipiwyd y wobwr gyntaf yn y côr agored yn Eisteddfod Gadeiriol Llanrwst, cyn cloi'r flwyddyn gyda'r wobwr gyntaf i'r parti yng Ngŵyl Cerdd Dant Dyffryn Conwy 2012. Hyfforddwyd y côr a'r parti gan Andrea Parry gyda gosodiadau arbennig gan Rhian Jones, Llangwm. Roedd y noson yn gyfle i ddiolch yn fawr iawn i'r aelodau am eu hymroddiad ac i'r rhieni am eu hebrwng yma ac acw!

Bu 2012 felly yn flwyddyn ragorol arall i Ysgol Dyffryn Conwy, cafodd hyn ei amlygu yn araith Mrs Janet Hughes a'r Pennaeth i'r rhieni, y disgyblion a'r staff. Roedd y seremoni wobrwyo yn gyfle i ddiolch i'r disgyblion sydd wedi cyfrannu cymaint at lwyddiant yr ysgol gan roi enw Llanrwst ar y map.

